

Refferendwm ar yr UE: Diweddariad Rhif 5 i Ymgyrchwyr

Ionawr 2016

Ymunwch â'n rhestr ddiweddaru

Gallwch danysgrifio i gael y diweddariadau hyn ar ein [gwefan](#) neu drwy ffonio 0333 103 1929

Cafodd y ddeddfwriaeth i gynnal refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE erbyn diwedd 2017 Gysyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2015. Nid yw dyddiad y refferendwm yn hysbys eto.

Ni sy'n rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Ein hamcan yw sicrhau uniondeb a thryloywder arian a gwariant ymgyrchoedd i bleidleiswyr.

Rydym yn cofrestru ymgyrchwyr ac yn rheoleiddio eu gwariant a'u rhoddion mewn refferenda.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i ymgyrchwyr a byddwn yn parhau i'ch hysbysu drwy'r diweddariadau hyn.

Gair am y diweddariad hwn

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y caiff Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 (y Ddeddf) ei dwyn i rym yn llawn **ddydd Llun 1 Chwefror 2016**. Mae'r pumed diweddariad hwn i ymgyrchwyr yn esbonio pa reolau fydd mewn grym o ba ddyddiad a'r hyn y bydd angen i chi ei wneud nawr os ydych yn ymgyrchydd.

Mae'n ymdrin â'r canlynol:

- statws y Ddeddf a'r rheolau i ymgyrchwyr
- canllawiau i ymgyrchwyr
- cofrestru fel ymgyrchydd
- adrodd cyn y bleidlais
- rhoddion a benthyciadau
- ble gallwch gael rhagor o wybodaeth

Statws y Ddeddf a'r rheolau i ymgyrchwyr

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu cychwyn y Ddeddf ar 1 Chwefror 2016. Golyga hyn:

- y bydd ymgyrchwyr yn gallu cofrestru â ni o 1 Chwefror 2016
- bod yn rhaid i ymgyrchwyr ddechrau cofnodi'r holl roddion a gafwyd a'r holl fenthyciadau a drefnwyd ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016 ar gyfer ymgyrch y refferendwm sy'n werth dros £7,500. Bydd modd i ymgyrchwyr cofrestredig roi gwybod am y rhain mewn adroddiadau cyn y bleidlais.
- rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig ddilyn y rheolau ynglŷn â

chadarnhau a ganiateir rhoddion a benthyciadau cyn eu derbyn.

Bydd y llywodraeth hefyd yn gwneud rheoliadau i roi mwy o fanylion ynglŷn â'r rheolau i ymgyrchwyr, gan gynnwys amseriad y broses ddynodi, hyd cyfnod y refferendwm a dyddiad y refferendwm. Mae angen i'r rhai gael eu trafod gan senedd y DU ac ni wyddom eto pryd y bydd y llywodraeth yn gwneud y rheoliadau. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr drwy'r diweddariad hwn ac ar ein gwefan.

Canllawiau i ymgyrchwyr

Rydym yn cyhoeddi ein canllawiau ar gyfer Refferendwm yr UE fesul cam, a hynny am nad yw'r Ddeddf yn nodi'r holl reolau. Cyhoeddwyd canllawiau gennym ar ddechrau mis Ionawr ynglŷn â'r canlynol:

- Trosolwg o'r rheolau
- Sut i gofrestru i fod yn ymgyrchydd
- Y broses ddynodi

Gan fod y llywodraeth wedi cychwyn y darpariaethau yn y Ddeddf bellach, byddwn yn cyhoeddi canllawiau yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror ar y canlynol:

- Rhoddion i ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Benthyciadau i ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Bydd y canllawiau ar gael ar y [dudalen](#) hon.

Bydd cam nesaf y canllawiau, y byddwn yn eu cyhoeddi ar ôl i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd, yn ymdrin â'r canlynol:

- Amserlenni a dyddiadau cau
- Rheoli gwariant
- Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill yn y refferendwm
- Gofynion adroddiadau cyn y bleidlais
- Cyrff cyhoeddus a deunydd y refferendwm

Sut y byddaf yn cofrestru?

Gallwch gofrestru i fod yn ymgyrchydd ar-lein drwy [PEF Online](#) o 1 Chwefror 2016. Hon yw ein hardal gofrestru ar-lein ddiogel. Fel arall, gallwch gofrestru drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen EUR1 sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

Gall unrhyw un wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu **yn ystod** cyfnod y refferendwm. Os hoffech wario mwy na £10,000 rhaid i chi gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i chi gofrestru ar wahân i fod yn ymgyrchydd refferendwm hyd yn oes os ydych eisoes wedi'ch cofrestru â ni fel ymgyrchydd plaid wleidyddol neu ymgyrchydd nad yw'n rhan o blaid.

Fel ymgyrchydd cofrestredig, rhaid i chi ddilyn y rheolau ynglŷn â gwariant, rhoddion ac adroddiadau.

Adrodd cyn y bleidlais

Yn y cyfnod cyn y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol, ond gan gynnwys pleidiau llai) roi gwybod i ni am roddion a benthyciadau penodol. Gelwir hyn yn adrodd cyn y bleidlais.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais erbyn dyddiadau cau penodol, gan nodi pa roddion a gafwyd a pha fenthyciadau a drefnwyd ganddynt ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016 ar gyfer ymgyrch y refferendwm sy'n werth dros £7,500. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a dderbyniwyd a benthyciadau a gafwyd cyn bod yr ymgyrchydd yn cofrestru. **Nid** yw gwariant ar ymgyrch y refferendwm cyn dechrau cyfnod y refferendwm yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Caiff dyddiadau cau adroddiadau cyn y bleidlais ynghyd â dechrau cyfnod y refferendwm eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan y llywodraeth. Byddwn yn hysbysu ymgyrchwyr pan fydd hyn yn digwydd ar ein [gwefan](#).

Beth ddylech ei wneud nawr?

Ar hyn o bryd, dylech gadw cofnodion cywir o unrhyw roddion neu fenthyciadau gwerth dros £7,500 at ddibenion ymgyrch y refferendwm (boed hynny cyn neu yn ystod cyfnod swyddogol y refferendwm) fel y gallwch gydymffurfio â'r gofyniad adrodd hwn.

Rhoddion a benthyciadau

Cyn i ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig dderbyn unrhyw rodd gwerth mwy na £500 neu drefnu unrhyw fenthyciad gwerth mwy na £500, rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r gwir ffynhonnell
- cadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir

Cyn gynted ag y cewch rodd, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, a dechrau cadarnhau a yw'n rhoddwr a ganiateir. Bydd gennych 30 diwrnod i benderfynu p'un a ddylech dderbyn neu wrthod y rhodd a dychwelyd y rhodd os nad yw'r ffynhonnell yn un a ganiateir.

Mae ein canllawiau yn esbonio sut i gadarnhau'r hyn a ganiateir ar gyfer rhoddion a benthyciadau i bob ymgyrchydd.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn fwy na pharod i roi cyngor i ddarpar ymgyrchwyr ynglŷn â sut i gydymffurfio â'r rheolau.

Cysylltwch â ni ar 0333 103 1929
pef@electoralcommission.org.uk

Fel arall, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost isod.

- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr:
pef@electoralcommission.org.uk

- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Am wybodaeth arall ynglŷn â'r refferendwm

Ar ein gwefan,
www.comisiwnetholiadol.org.uk,
gallwch weld:

- rhagor o wybodaeth ynglŷn â'n rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer cynnal refferenda
- y ffordd rydym yn asesu cwestiynau refferenda
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n esbonio ein safbwynt ar ddarpariaethau lle y bo'n briodol.